

# Heriau Contractau GMC

Dull Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan o  
osod contractau Gwasanaethau Meddygol  
Cyffredinol lluosog i un bartneriaeth meddygon  
teulu

Mai 2026

# Amdanom ni

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn o dan adran 61(3)(b) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2004.

## © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Gallwch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch chi'n ei aildefnyddio, rhaid i'ch aildefnydd fod yn gywir ac ni ddylai fod mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru, a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Pan fyddwn wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

## Os oes angen cymorth arnoch gyda'r ddogfen hon

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau arnoch mewn fformat neu iaith arall, os gwelwch yn dda:

- Ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- E-bostiwch ni; [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gallwch ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – byddwn yn ymateb i chi yn yr iaith rydych chi'n ei defnyddio.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI).

# Cynnwys

---

Ciplun archwiliad	4
Ffeithiau a ffigurau allweddol	7
Ein canfyddiadau	8
Argymhellion	21
Atodiadau	23
1 Ynglŷn â'n gwaith	23
2 Amserlen Dyfarnu Contract	25
3 Gwerthoedd contract 2024-25	27
4 Monitro contractau	28
5 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn	29
6 Ymateb y rheolwyr	31

# Ciplun archwiliad

---

## Yr hyn yr edrychwyd arno

- 1 Fe wnaethom adolygu dull Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (y Bwrdd Iechyd) o ddyfarnu contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMC) ar gyfer nifer o bractisau cyffredinol i un bartneriaeth meddyg teulu sy'n cael ei rhedeg gan ddau feddyg teulu (y Bartneriaeth). Rydym wedi archwilio trefniadau gosod contractau'r Bwrdd Iechyd yn ogystal â'r trefniadau parhaus ar gyfer rheoli contractau ar gyfer y practisau meddygon teulu dan sylw.

## Pam mae hyn yn bwysig

- 2 Ym mis Ebrill 2024 roedd y Bartneriaeth, sy'n gysylltiedig â'r cwmni rheoli ehangach eHarley Street Primary Care Solutions, yn rheoli wyth practis meddygon teulu. Erbyn mis Hydref 2025 roedd y Bartneriaeth wedi trosglwyddo'r contractau ar gyfer pum practis yn ôl i'r Bwrdd Iechyd.
- 3 Mae hyn wedi gosod y Bwrdd Iechyd mewn sefyllfa heriol lle bu'n rhaid iddo gymryd cyfrifoldeb dros reoli'r practisau hyn ar rybudd cymharol fyr i ddiogelu darpariaeth gwasanaethau meddygon teulu i'r boblogaeth leol. Yng nghyd-destun practisau meddygon teulu a oedd yn cael eu rheoli gan y Bwrdd Iechyd yn flaenorol ar gost uwch na'r arfer, bu goblygiadau cost pellach i'r Bwrdd Iechyd hefyd, ac o bosibl rhywfaint o bryder gan breswylwyr dros barhad eu gwasanaethau meddygon teulu. Yn ogystal, mae pryderon wedi cael eu cyhoeddi ynghylch peidio â thalu anfonebau meddyg locwm a chyflenwyr, taliadau treth a chyfraniadau pensiwn y GIG o fewn practisau penodol a reolwyd gan y Bartneriaeth.
- 4 Gyda'i gilydd, mae'r materion hyn wedi arwain at wleidyddion yn y Senedd a San Steffan yn codi pryderon gyda'r Archwilydd Cyffredinol ynglŷn â model gweithredu'r Bartneriaeth a Gwaith y Bwrdd Iechyd yn gosod a rheoli'r contractau gyda'r Bartneriaeth.

## Yr hyn a ganfuom

- 5 Ar adeg gosod y contractau i'r Bartneriaeth, roedd y Bwrdd Iechyd mewn sefyllfa heriol o orfod rheoli nifer o bractisau gwag ar draws ei boblogaeth breswyl. Mae'r Bartneriaeth wedi rheoli practis yn Llyswry heb unrhyw bryderon amlwg a hi oedd yr unig gynigydd ar gyfer sawl un o'r contractau.
- 6 Serch hynny, dylai'r Bwrdd Iechyd fod wedi rhoi mwy o ystyriaeth i'r risg sy'n gysylltiedig ag un Bartneriaeth yn ymgymryd â chymaint o bractisau newydd dros gyfnod byr. Dylai hefyd fod wedi cynnal mwy o wiriadau diwydrwydd dyladwy ar fodel busnes y Bartneriaeth a chraffu'n fanylach ar ei hachosion busnes a'i chynlluniau ariannol.
- 7 Er nad oes unrhyw dystiolaeth o weithgarwch twyllodrus wedi'i nodi, mae'r problemau a brofwyd gan y Bartneriaeth wedi achosi pryderon ariannol i staff a gyflogir gan y Bartneriaeth. Yn ogystal, yn unol â dulliau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol o gefnogi practisau 'mewn perygl' yn ariannol, cafodd y Bartneriaeth fynediad at dros £1 miliwn o gyllid cynaliadwyedd cyn iddynt drosglwyddo pump<sup>1</sup> o'u wyth contract yn ôl i'r Bwrdd Iechyd.
- 8 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi diwygio rhai o'i drefniadau comisiynu oherwydd y digwyddiadau hyn a'r newidiadau i reoliadau caffael. Fodd bynnag, yn ein barn ni, mae angen cryfhau prosesau gosod contract ymhellach i leihau'r risg y bydd digwyddiadau tebyg yn digwydd yn y dyfodol.

---

<sup>1</sup> Ers cwblhau ein gwaith maes, mae'r Bartneriaeth wedi nodi ei bod yn bwriadu trosglwyddo'r tri contract sy'n weddill yn ôl i'r Bwrdd Iechyd.

## Yr hyn rydym yn ei argymhell

9 Rydym wedi gwneud pedwar argymhelliad i'r Bwrdd Iechyd yn seiliedig ar y canlynol:

- cryfhau gofynion achos busnes i sicrhau bod digon o fanylion i lywio'r broses o wneud penderfyniadau;
- cryfhau'r asesiad risg ar gynlluniau ariannol arfaethedig, model gweithredu, cynlluniau gweithlu a llywodraethu clinigol;
- cryfhau ymhellach ei broses diwydrwydd dyladwy newydd;
- cytuno ar berfformiad practis GMC a metrigau gweithredol clir ond cymesur sy'n cyd-fynd â phrosesau monitro Bwrdd Iechyd.

# Ffeithiau a ffigurau allweddol

---

**8**

practis yn cael eu rheoli gan y Bartneriaeth ym mis Ebrill 2024.

**3**

phractis yn parhau i gael eu rheoli gan y Bartneriaeth yn ystod 2025-26. Y rhain oedd Meddygfa Gelligaer, Canolfan Feddygol Pont-y-pŵl, a Chanolfan Feddygol Llyswry.

**Chwefror  
2026**

Hysbysodd y partneriaid y Bwrdd Iechyd yn ffurfiol ym mis Chwefror y byddant yn rhoi'r tri phractis a oedd yn weddill yn ôl ddiwedd mis Mawrth 2026.

**£10.1  
miliwn**

Dyma werth blynyddol cyfunol y contractau unigol ar gyfer yr wyth practis yn 2024-25.

**£1.2m**

Dyma gyfanswm y gefnogaeth cyllid cynaliadwyedd ychwanegol a hawliwyd gan y Bartneriaeth ar gyfer yr wyth practis yn ystod y flwyddyn ariannol 2024-25.

# Ein canfyddiadau

---

## Llinell amser dyfarnu contract

### **Dyfarnwyd contractau i'r Bartneriaeth yn unol â pholisi practis gwag y Bwrdd Iechyd ac yng nghyd-destun y ffaith ei fod yn gorfod rheoli nifer o bractisau gwag ar yr un pryd**

- 10 Dros gyfnod o ddwy flynedd, cafodd y Bartneriaeth contractau ar gyfer darparu Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol ar gyfer wyth practis ar draws y Bwrdd Iechyd. Er bod y Bartneriaeth yn cynnwys dau feddyg teulu, nid oedd y meddygon teulu hyn yn darparu gwasanaethau gofal lleol yn uniongyrchol. Yn hytrach, roedden nhw'n gyfrifol am sicrhau staff i ddarparu'r gwasanaethau. Roedd y model hwn wedi bod yn rhedeg o fewn GIG Lloegr ers peth amser, ac nid oedd adolygiadau gan y Comisiwn Ansawdd Gofal wedi dod o hyd i unrhyw bryderon. Mae model y Bartneriaeth yn dibynnu ar gyflawni swyddogaethau swyddfa gefn trwy dîm canolog a gyflogir gan e-Harley Street Primary Care Solutions. Y rhagdybiaeth yw bod y trefniadau swyddfa gefn hyn yn galluogi timau'r practis i ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau ar lefel leol a chyflawni effeithlonrwydd o ran costau.
- 11 Y practis cyntaf i gael ei reoli gan y Bartneriaeth oedd Practis Meddygol Llyswry, Casnewydd, ym mis Tachwedd 2022. Fe wnaethant ymuno â phartneriaeth meddygon teulu presennol sy'n annibynnol ar gyfranogiad y Bwrdd Iechyd, mewn dull sy'n dilyn rheoliadau GMC<sup>2</sup>. Darparwyd gwasanaethau yn unol â'r disgwyliadau ac ni chodwyd unrhyw bryderon.

---

<sup>2</sup> Mae prosesau GMC yn caniatáu i ddeiliaid contract meddygon teulu presennol drosglwyddo eu contract i ddarparwr arall, trwy amrywiad contract. Mae'r prosesau hyn hefyd yn caniatáu i unigolion ymuno neu ymddiswyddo o bartneriaethau.

- 12 Yna dyfarnodd y Bwrdd Iechyd Chwe Contract i'r Bartneriaeth rhwng Hydref 2023 ac Ebrill 2024. Mewn tri o'r achosion hyn (practisau Bryntirion, Blaenafon ac Aberbîg) y Bartneriaeth oedd yr unig ymgeisydd a wnaeth gais i redeg y practisau. Roedd y ddau bractis arall o ganlyniad i ymddiswyddiadau contract mwy diweddar. Mae **Atodiad 2** yn amlinellu hyn yn fanylach.
- 13 Cyn Hydref 2023, roedd y Bwrdd Iechyd yn rheoli pump o'r practisau hyn yn uniongyrchol ac roedd wedi gwneud hynny ers peth amser yn amrywio o rhwng un a deng mlynedd. Yn ddelfrydol, dylai byrddau Iechyd edrych ar reoli practisau yn uniongyrchol i ddarparu sefydlogrwydd tymor byr cyn dod o hyd i gonacontractwyr annibynnol newydd i redeg y practis<sup>3</sup>. Yn ogystal â thynnu ar gapasiti o fewn y Bwrdd Iechyd, mae practisau a reolir fel arfer yn fwy costus i'w rhedeg gan fod angen i gostau staffio alinio â graddfeydd cyflog Agenda ar gyfer Newid. Roedd y Bwrdd Iechyd yn gorwario yn erbyn eu swm craidd GMC ar gyfer y practisau hyn oherwydd lefel uchel o ddibyniaeth ar staffio locwm. Adroddodd y Bwrdd Iechyd hefyd fod gan breswylwyr y practisau a reolir lai o fynediad at weithgarwch gwasanaeth gwell<sup>4</sup> oherwydd diffyg staffio rheolaidd. Gyda'i gilydd, fe wnaeth y ffactorau hyn hi'n hanfodol i'r Bwrdd Iechyd ddychwelyd y practisau i statws contractwr annibynnol.
- 14 Ym mis Ebrill 2024, ymunodd y Bartneriaeth hefyd â'r contract ar gyfer Meddygfa Gelligaer, yn annibynnol ar gyfranogiad y Bwrdd Iechyd.

---

<sup>3</sup> Yn gynyddol mae Byrddau Iechyd yn ei chael hi'n anodd sicrhau contractwyr annibynnol i ddarparu gwasanaethau meddygon teulu. Yn yr achos hwn, mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd gamu i mewn a rhedeg y practis i sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i gael ei ddarparu i breswylwyr.

<sup>4</sup> Gallai gwasanaethau gwell gynnwys mynediad at fân lawdriniaethau a gofal ciwyfau ar ôl rhyddhau.

## **Er gwaethaf y ffaith iddi dderbyn dros £1 miliwn o gyllid cymorth cynaliadwyedd yn ystod 2024-25, cafodd y Bartneriaeth anawsterau ariannol yn gyflym ac yn y pen draw fe drosglwyddodd bum practis yn ôl**

- 15 Ym mis Ebrill 2024, cyfanswm gwerth blynyddol yr 8 contract yr oedd y Bartneriaeth yn gyfrifol amdanynt oedd £10.1 miliwn, er bod hyn wedi gostwng i £9.8 miliwn wrth i'r Bartneriaeth drosglwyddo tri phractis yn ôl i'r Bwrdd Iechyd cyn diwedd y flwyddyn ariannol 2024-25. Mae **Atodiad 3** yn cynnwys mwy o fanylion am werthoedd dyfarnu contract 2024-25.
- 16 Mewn trafodaeth â thîm Gwrth-dwyll GIG Cymru, rydym yn ymwybodol bod Asiantaeth Pensiynau'r GIG wedi bod yn adolygu'r practisau meddygon teulu sy'n cael eu rhedeg gan y Bartneriaeth mewn perthynas â thandalu taliadau pensiwn. Roedd y gwaith hwn wedi dangos, er bod taliadau pensiwn wedi'u gwneud, nad oeddent wedi'u talu ar y lefel gywir. Dywedodd staff Gwrth-dwyll GIG Cymru wrthym fod cyfraniadau pensiwn sy'n weddill ar gyfer pob practis wedi'u talu ac eithrio practis Tredegar ar gyfer Rhagfyr 2024 yn unig. Cadarnhaodd staff Gwrth-dwyll GIG Cymru eu bod yn fodlon nad oedd unrhyw dystiolaeth o dwyll mewn perthynas â thandalu cyfraniadau pensiwn.
- 17 Rydym hefyd yn ymwybodol bod pryderon wedi'u codi ynghylch tandaliadau i CThEF a hefyd roedd anfonebau gan feddygon locwm mewn practisau sy'n cael eu rhedeg gan y Bartneriaeth heb eu talu. Cadarnhaodd staff y Bwrdd Iechyd eu bod wedi gweld dystiolaeth o gynllun talu gan y Bartneriaeth i fynd i'r afael â thandaliadau CThEF. Fodd bynnag, nid ydym wedi gallu penderfynu a yw anfonebau meddygon locwm a oedd heb eu talu, wedi cael eu talu.

- 18 Mewn ymateb i'r pryderon hyn, sbardunodd y Bwrdd Iechyd broses fonitro uwch ar gyfer pob un o wyth practis y Bartneriaeth. Roedd y broses hon yn cynnwys cyfarfodydd pob pythefnos gyda'r Bartneriaeth, adrodd data wythnosol, a chyfarfodydd wythnosol ac ymweliadau sicrwydd. Trwy'r rhain ceisiodd y Bwrdd Iechyd gael sicrwydd ynghylch y trefniadau ar gyfer llywodraethu, y gweithlu a chynaliadwyedd ariannol. Cynhaliodd y Bwrdd Iechyd hefyd adolygiadau ar gapasiti clinigol, trefniadau mynediad, a pherfformiad o ran cwynion. Yn gyffredinol, er bod y Bwrdd Iechyd yn cael digon o sicrwydd ynghylch y rhan fwyaf o'r materion hyn, roedd cynaliadwyedd ariannol y practisau yn dal i fod yn bryderus.
- 19 Er mwyn cefnogi'r Bartneriaeth, defnyddiodd y Bwrdd Iechyd Fframwaith Asesu Cynaliadwyedd<sup>5</sup> (SAF) Llywodraeth Cymru i asesu lefel y cymorth sydd ei angen ar gyfer pob practis. Mae lefel y cymorth yn cael ei bennu gan banel asesu lleol gan gynnwys Pwyllgor Meddygol Lleol Gwent, a rhaid i feddygon teulu gefnogi pob hawliad gyda thystiolaeth o wariant. Mae ffigurau ar gyfer 2024-25 yn dangos bod y Bartneriaeth wedi hawlio dros £1.2 miliwn o gyllid cynaliadwyedd ar draws yr holl bractisau yr oedd yn eu rheoli. Roedd y cyllid hwn yn bennaf i dalu costau meddygon locwm angenrheidiol ond hefyd ar gyfer costau dilys eraill a oedd yn gysylltiedig â sefydlu a rhedeg y practis. Dylid nodi nad oedd y Bartneriaeth yn hawlio'r holl gyllid a oedd ar gael iddynt.
- 20 Er gwaethaf y cymorth ariannol ychwanegol a ddarparwyd gan y Bwrdd Iechyd, roedd pryderon o hyd ynglŷn â sefydlogrwydd ariannol y practis. Erbyn Ebrill 2025, o fewn 15 mis, roedd y Bartneriaeth wedi trosglwyddo contractau pump o'u practisau yn ôl oherwydd nad oeddent yn gynaliadwy yn ariannol.

---

<sup>5</sup> Mae'r cynllun hwn ar gael i bob practis GMC ledled Cymru. Yn ogystal â phractisau'r Bartneriaeth a dderbyniodd gyllid SAF, roedd tri phractis arall yn y Bwrdd Iechyd nad yw'r bartneriaeth meddygon teulu yn eu rheoli hefyd yn derbyn y cyllid hwn yn ystod 2024-25. Mae dyraniadau cyllid ychwanegol yn gymesur â maint practis meddygon teulu ac amgylchiadau penodol practisau unigol megis dibyniaeth ar feddygon locwm i gynnal lefelau diogel.

- 21 Rheolodd y Bwrdd Iechyd y broses o drosglwyddo'r practisau a ddychwelodd y Bartneriaeth mewn ffordd effeithiol a sefydlogodd wasanaethau. Mae'n alinio timau ymroddedig â'r practisau i gefnogi'r broses drosglwyddo gan sicrhau bod mynediad at wasanaethau a diogelwch cleifion yn cael ei flaenoriaethu a'i gynnal. Roedd hyn yn cynnwys tîm goruchwylio gweithredol wedi'i ffurfio o gyfarwyddwyr clinigol, staff nyrsio a chymorth rheolwyr.
- 22 Ym mis Medi 2025, dyfarnodd y Bwrdd Iechyd gontract GMC ar gyfer Practis Meddygol Aberbîg i ddarparwr newydd, gan ddechrau 1 Ionawr 2026. Ar adeg adrodd roedd y Bwrdd Iechyd yn rheoli'n uniongyrchol bedwar practis sef Practis Meddygol Brynmawr, Practis Meddygol Blaenafon, Canolfan Iechyd Tredegar a Meddygfa Bryntirion. Ym mis Chwefror 2026, rhoddodd y bartneriaeth rybudd ffurfiol o'u bwriad i drosglwyddo'r tri gontract GMC a oedd yn weddill ar gyfer Meddygfa Gelligaer, Canolfan Feddygol Pont-y-pŵl, a Chanolfan Feddygol Llyswyry yn ôl i'r Bwrdd Iechyd yn weithredol o 1 Ebrill 2026.

## Effeithiolrwydd prosesau dyfarnu contract

**Nid oedd y Bwrdd Iechyd yn asesu'n llawn y risg o roi chwe gontract i un bartneriaeth ac roedd y diwydrwydd dyladwy, y gwaith craffu ar gynlluniau ariannol ac achosion busnes yn annigonol.**

- 23 Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd gadw at ei bolisi practis gwag i raddau helaeth wrth ddyfarnu'r contract. Ym mis Ionawr 2025, gofynnodd y Bwrdd Iechyd i'w wasanaeth Archwilio Mewnol adolygu proses dyfarnu contract ar gyfer pum practis (Tredegar, Brynmawr, Blaenafon, Aberbîg a Bryntirion). Roedd yr adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Mai 2025 yn rhoi sicrwydd rhesymol yn gyffredinol ond canfu gwyradau o'r polisi. Roedd y gwyradau hyn yn cynnwys y canlynol:
  - roedd y cyfnod rhwng hysbysebu'r contractau a'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyniadau yn rhy fyr;

- er nad oedd yn ofynnol o ran yr angen am gworwm, roedd cynrychiolaeth allanol y Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth a/neu gynrychiolaeth Llais ar goll mewn paneli cyfweiliadau;
- Roedd gwriad o gwestiynau gosod y cyfweiliad er eu bod yn canolbwyntio ar themâu tebyg.

24 Hefyd, paratôdd Archwilio Mewnol adroddiad cynghori<sup>6</sup> ym mis Mehefin 2025. Roedd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar feysydd a oedd y tu allan i gwmpas ei adolygiad ffurfiol gwreiddiol. Roedd hwn yn cynnwys:

- cadw tystiolaeth o wiriadau ariannol diwydrwydd dyladwy mewnol a gwiriadau ariannol rhestr perfformwyr meddygol;
- cytuno ar ofynion monitro contractau;
- cryfhau'r dull sgorio achosion busnes, a chymhwyso cwestiynau safonol a model sgorio ar gyfer cyfweleion i leihau'r risg hon o herio proses dyfarnu contract; a
- sicrhau digon o amser rhwng dyfarniad y contract a dyddiad cychwyn y cyswllt.

25 Roedd polisi practis gwag y Bwrdd Iechyd yn adlewyrchu gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y canllawiau hyn yn 2006, ac nid oeddent wedi'u cynllunio'n ddigonol i fod o gymorth wrth ystyried y math o fodel busnes y mae'r bartneriaeth fusnes a weithredodd eHarley Street yn ei weithredu. Bydd yr angen i ddiweddarau canllawiau 2006 yn cael ei drafod ar wahân gyda Llywodraeth Cymru.

26 Roedd y Bwrdd Iechyd yn hysbysebu ac yn dyfarnu pob contract GMC ar wahân ond cyfanswm y contractau a ddyfarnodd y Bwrdd Iechyd i'r Bartneriaeth oedd £8.1 miliwn yn 2024-25<sup>7</sup>. Yn ein barn ni:

---

<sup>6</sup> Nid yw adroddiad cynghori yn rhoi asesiad sicrwydd yn wahanol i adroddiad Archwilio Mewnol safonol.

<sup>7</sup> Ar gyfer y practisau a benodwyd drwy'r polisi practis gwag (Pont-y-pŵl, Tredegar Brynmawr, Aberbîg, Bryntirion a Blaenafon)

- gallai'r Bwrdd Iechyd fod wedi bod yn fwy ymwybodol o'r risgiau posibl wrth ddyfarnu cyfanswm o £8.1 miliwn i un cyflenwr (er eu bod yn gontractau ar wahân), o ystyried bod hyn yn llawer mwy na'r trothwy o £1 miliwn ar gyfer cymeradwyaeth Gweinidogol sy'n berthnasol i gontractau sengl; a
- nid oedd yn ystyried yn ddigonol yr effaith/risg bosibl o ddyfarnu sawl practis i'r Bartneriaeth mewn cyfnod byr a'i gallu i reoli'r ymrwymïadau newydd hyn.

27 Mae prosesau'r Bwrdd Iechyd yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw ddarparwr GMC Iunio achos busnes ariannol fel rhan o'u cyflwyniad, i'w ystyried gan banel cyfweiliad Practis Gwag sydd hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth gan Llais a Phwyllgor Meddygol Lleol Gwent. Er bod y Bartneriaeth wedi rhoi sicrwydd yn eu hachosion busnes bod digon o gyllid, nid oes unrhyw dystiolaeth bod y Bwrdd Iechyd wedi ymgymryd ag unrhyw brofion straen ariannol neu waith i ddarparu sicrwydd ynghylch cydnerthedd ariannol y Bartneriaeth. Ni chanfu Archwilio Mewnol unrhyw gofnod o'r mathau o wiriadau a gynhaliwyd gan y Bwrdd Iechyd yn ystod y broses asesu a pha mor drylwyr oeddent.

28 Canfu ein hadolygiad o achosion busnes y Bartneriaeth eu bod yn ddiffygiol o ran manylion. Roedd cynlluniau ariannol y Bartneriaeth ar gyfer un flwyddyn yn unig. Byddai cynllun busnes tair blynedd wedi bod yn ofyniad mwy rhesymol, i roi sicrwydd. Nodwyd nad oedd yr achosion busnes yn darparu unrhyw fanylion am gostau mewn perthynas â'r swyddogaethau swyddfa gefn a reolwyd gan eHarley Street Primary Care Solutions. Nid oedd y Bartneriaeth wedi nodi yn ei achos busnes unrhyw ddyraniad ariannol i e-Harley Street Primary Care Solutions ar gyfer rheoli'r swyddogaethau swyddfa gefn.

- 29 Dylai'r Bwrdd Iechyd fod wedi gwerthuso'r cynlluniau ariannol yn fwy manwl. Fe wnaethom adolygu achos busnes Brynmawr, ac mae hwn yn codi pryderon am hyfywedd ariannol y Bartneriaeth i gefnogi'r practis hwn cyn dyfarnu'r contract. Er enghraifft, roedd y cynllun ariannol arfaethedig yn nodi ei fod yn bwriadu lleihau costau locwm sef £1 miliwn yn llai na chostau'r flwyddyn ariannol flaenorol. Pe bai costau locwm yn lleihau, yna byddem yn disgwyl i gynllun, o ganlyniad, nodi cynnydd cyfatebol mewn costau cyflog meddygon teulu mewn swydd barhaol/craidd. Fodd bynnag, dim ond £16,607 ychwanegol oedd y cynnydd arfaethedig mewn costau i feddygon teulu mewn swydd barhaol ac ni ddarparwyd unrhyw fanylion cynllunio'r gweithlu i nodi sut y byddai gostyngiad mewn costau gweithlu o'r fath yn cael ei gyflawni.
- 30 Er eu bod yn nodi bod y Bartneriaeth wedi gweithredu practis Llyswyry ers 2022, roedd gwybodaeth o fewn achosion busnes y Bartneriaeth hefyd yn tynnu sylw at ddiffyg dealltwriaeth o'r trefniadau gofal iechyd datganoledig yng Nghymru. Mae'r ddogfennau mobileiddio a ysgrifennwyd gan y Bartneriaeth yn cyfeirio at y Comisiwn Ansawdd Gofal<sup>8</sup>, a Grwpiau Comisiynu Clinigol<sup>9</sup> nad ydynt yn gweithredu yn y GIG yng Nghymru.

---

<sup>8</sup> Rheoleiddiwr annibynnol gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion yn Lloegr. Mae'n monitro, arolygu a mesur gwerth darparwyr fel ysbytai, cartrefi gofal, meddygon teulu, a deintyddion i sicrhau bod gofal yn ddiogel, yn effeithiol, ac yn bodloni safonau cenedlaethol

<sup>9</sup> Sefydliadau GIG dan arweiniad clinigol yn Lloegr (2013–2022) sy'n gyfrifol am gynllunio a phrynu gwasanaethau gofal iechyd ar gyfer poblogaethau lleol. Roedden nhw'n cynnwys practisau meddygon teulu ac yn rheoli tua dwy ran o dair o gyllideb y GIG cyn cael eu disodli gan Systemau Gofal Integredig (ICSs) ym mis Gorffennaf 2022

- 31 Yn fwy cyffredinol, ni allem weld unrhyw dystiolaeth bod y Bwrdd Iechyd wedi cynnal unrhyw wiriadau o gofnodion Tŷ'r Cwmnïau mewn perthynas â buddiannau busnes ehangach y partneriaid. Gan nodi nad yw cylchlythyr Llywodraeth Cymru na pholisi practis gwag y Bwrdd Iechyd yn gofyn am wiriadau o'r fath, dylai ymgymryd â nhw fod yn rhan o brosesau diwydrwydd dyladwy arferol y Bwrdd Iechyd ar gyfer gosod contractau. Er efallai na fyddai gwiriadau o'r fath wedi newid y penderfyniad terfynol i ddyfarnu'r contractau i'r Bartneriaeth, byddai wedi rhoi cyfle i geisio sicrwydd pellach ar faterion fel sefydlu cwmnïau lluosog mewn cyfnod byr o amser a busnesau sydd wedi'u diddymu yn fuan ar ôl eu creu. Hyd yn oed ar ôl dyfarnu contract, gallai'r math hwn o wybodaeth fod yn rhan o fonitro contractau parhaus a rheoli risg.
- 32 Dylid nodi bod Partneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru wedi ychwanegu'r ddau feddyg teulu at ei Rhestr Perfformwyr Meddygol (MPL) yn 2022 gan fod yn rhaid i feddygon teulu fod ar y rhestr er mwyn dal contract GMC. Mae'r MPL yn rhoi sicrwydd ynghylch a yw meddygon teulu yn addas i ymarfer yng Nghymru, gan wirio eitemau gan gynnwys eu hyswiriant indemniad a'u cymwysterau a'u profiadau. Fodd bynnag, gan nad oedd y ddau feddyg teulu yn trin cleifion yn uniongyrchol, roedd y gwiriadau hyn o werth cyfyngedig.

## Dysgu o ddigwyddiadau a rheolaeth barhaus

**Mae trefniadau ar gyfer rheoli contractau parhaus wedi gwella, ond mae lle i gryfhau gwiriadau ariannol yn ystod y broses ddyfarnu o hyd**

### Proses dyfarnu contract

- 33 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud rhai gwelliannau i'w bolisïau a'i weithdrefnau, ond yn ein barn ni nid yw'r rhain yn mynd yn ddigon pell. Yn dilyn argymhellion gan Archwilio Mewnol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei bolisïau a'i weithdrefnau ar gyfer rheoli dyfarniadau contractau GMC yn y dyfodol. Ym mis Gorffennaf 2025 cyhoeddodd y Bwrdd Iechyd weithdrefn weithredu safonol newydd a pholisi practis gwag wedi'i ddiweddarau. Mae'r trefniadau hyn yn adlewyrchu gofynion newydd Rheoliadau Gwasanaethau Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) (Cymru) 2025<sup>10</sup>. Mae'r gweithdrefnau newydd yn gweithredu proses a map tendro ffurfiol, llywodraethu cryfach mewn perthynas â gwerthuso ceisiadau ac ymgysylltu'n ehangach â rhanddeiliaid. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi cytuno a'u dewis yw bod darparwyr GMC yn y dyfodol wedi'u lleoli yn rhanbarth Gwent.
- 34 Mae'r gweithdrefnau hefyd yn darparu mwy o eglurder ar y gwiriadau diwydrwydd dyladwy penodol sydd eu hangen. Cyn dyfarnu'r contract mae'r rhain yn cynnwys:
- gwiriadau credyd sylfaenol ar yr unigolion o fewn y bartneriaeth;
  - copïau o ddatganiadau ariannol archwiliedig am y 2 flynedd ddiwethaf;
  - cadarnhad o unrhyw ddyledion neu rwymedigaethau sy'n ddyledus a allai effeithio ar ddarparu gwasanaeth;
  - manylion unrhyw doriadau, sancsiynau neu anghydfodau blaenorol;
  - llythyr cyfrifydd ynghylch hyfywedd.

---

<sup>10</sup> Deddf Caffael Gwasanaethau Iechyd (Cymru) 2024

- 35 Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi cyflwyno gwiriadau ar ôl dechrau'r contract i sicrhau bod gan ddarparwyr y canlynol:
- system gyflogres ar waith ar gyfer taliadau staff;
  - tystiolaeth o gofrestru a chydymffurfiaeth PAYE;
  - tystiolaeth o gydymffurfiaeth â gofynion CThEF;
  - trefniadau cynllun pensiwn ar gyfer staff;
  - cadarnhad o berchnogaeth cyfrif a llofnodwyr awdurdodedig;
  - tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyflogwyr; a
  - thystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus.
- 36 Mae'r gwiriadau ychwanegol hyn yn cryfhau trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer rheoli dyfarniadau contractau GMC. Fodd bynnag, yn ein barn ni mae lle i'w cryfhau ymhellach. Nid yw'r canllawiau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd gadw cofnod ffurfiol o wiriadau ariannol neu ddiwydrwydd dyladwy. Byddai cadw cofnod o'r fath yn bwysig pe bai'r Bwrdd Iechyd byth yn cael ei herio ar ei brosesau dyfarnu contract. Yn ogystal, nid yw'r canllawiau ychwaith yn ymestyn i wirio a oes gan ddarpar contractwyr unrhyw fuddiannau busnes neu a oes ganddynt unrhyw hanes ariannol neu fasnachol a allai gyfiawnhau cyfres fanylach o ymholiadau i ddarparu'r sicrwydd angenrheidiol ynghylch eu haddasrwydd i gael contract.

## Monitro a rheoli contractau parhaus

- 37 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella ei drefniadau ar gyfer monitro cyflawni contractau. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno monitro gwell gorfodol ar gyfer pob darparwr newydd am o leiaf 12 mis, ac mae hyn bellach yn rhan o'r trefniadau comisiynu. Fodd bynnag, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi disgrifio'r mesurau perfformiad na'r sbardunau ar gyfer uwchgyfeirio ac isgyfeirio a fyddai ar waith y tu hwnt i'r cyfnod monitro uwch cychwynnol.
- 38 Mae'r Bwrdd Iechyd yn monitro'r risgiau yn weithredol yn y practisau y mae'r Bartneriaeth yn parhau i fod yn gyfrifol amdanynt, er ei fod yn nodi y bydd y practisau sy'n weddill yn cael eu trosglwyddo'n ôl ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Roedd y trefniadau yn cynnwys:

- cyfarfodydd uwchgyfeirio gweithredol wythnosol yn monitro argaeledd apwyntiadau i gleifion. Mae'r mynychwyr yn cynnwys y Pennaeth Gofal Sylfaenol, y Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol, y Rheolwr Gweithrediadau Canolog, y Cyfarwyddwr Rhanbarthol ar gyfer Gofal Sylfaenol, Gwasanaethau Cymunedol, a Gofal Cymhleth a Hirdymor a rheolwr practis lleol ar gyfer y bartneriaeth;
  - cyfarfodydd sicrwydd bob pythefnos gyda'r bartneriaeth sy'n canolbwyntio ar lywodraethu, gweithlu a chyllid yn ogystal ag unrhyw bryderon penodol ychwanegol yn y practis. Mae'r mynychwyr yn cynnwys y Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol, Pennaeth Partneriaid Busnes Gofal Sylfaenol a Chyllid gydag o leiaf un partner meddyg teulu yn bresennol ochr yn ochr â'r Rheolwr Gweithrediadau Canolog;
  - monitro data gweithgareddau'r practis yn wythnosol i nodi unrhyw feysydd lle nad yw safonau mynediad yn cael eu cyflawni; ac
  - ymweliadau sicrwydd i'r practis yn seiliedig ar Fframwaith Sicrwydd Contractau GMC.
- 39 Mae'r Tîm Contractio Gofal Sylfaenol yn defnyddio trefniadau safonol i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion contract craidd ar gyfer pob Practis GMC. Rydym wedi amlinellu'r trefniadau hyn yn **Atodiad 3**.
- 40 Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu Fframwaith Sicrwydd Contractau (CAF) fel proses lywodraethu ar gyfer gwerthuso sicrwydd ar ddarparu gwasanaethau drwy'r Contract Unedig GMC a ddefnyddir ledled GIG Cymru a chan contractwyr GMC. Mae tair elfen y cytunwyd arnynt yn genedlaethol:
- set ddata ar gyfer ansawdd, diogelwch, llywodraethu a rheoli contractau; ffurflen sicrwydd practis a phecyn cymorth llywodraethiant gwybodaeth (IG);
  - proses ar gyfer asesu cydymffurfiaeth contractwr yn erbyn gofynion contractiol; ac
  - ysgol uwchgyfeirio ar gyfer rheoli pryderon.

- 41 Cymhwysodd y Bwrdd Iechyd y CAF ym mhob practis. Mae'r tîm gofal sylfaenol wedi cynnal cyfres o ymweliadau contract a llywodraethu ac wedi asesu'r deuddeg safon Ansawdd Iechyd a Gofal<sup>11</sup>. Lle mae'r tîm wedi dod o hyd i broblemau, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud argymhellion, ac mae'r practis wedi mynd i'r afael â nhw. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi pwyslais penodol ar safonau mynediad ac mae hefyd wedi nodi nad ydynt wedi nodi unrhyw faterion o ran diogelwch cleifion.
- 42 Mae'r ymweliadau â'r practis a gynhaliwyd fel rhan o'r trefniadau monitro uwch ar gyfer y Bartneriaeth yn cael eu llywio gan wybodaeth am berfformiad meddygon teulu. Mae'r practisau yn gyfredol o ran eu data cyflwyno fel rhan o'r broses CAF. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn monitro cyfraddau pryderon a chwynion cleifion ac yn meincnodi perfformiad i nodi unrhyw allgleifion.

---

<sup>11</sup> Rhaid i ofal fod, yn ddiogel, yn amserol, yn effeithiol, yn effeithlon, yn deg, yn canolbwyntio ar y person. Mae asesiadau hefyd yn cael eu gwneud yn erbyn arweinyddiaeth, gweithlu, diwylliant, gwybodaeth, dysgu a dull system gyfan.

# Argymhellion

---

**A1** Cryfhau gofynion achos busnes meddygon teulu yn y polisi practis gwag i sicrhau bod darpar bartneriaid meddygon teulu yn cynnwys digon o fanylion am eu cynlluniau gweithlu, ariannol ac ansawdd (**paragraff 27**).

**A2** Cryfhau'r gwaith craffu ar gynlluniau busnes ariannol darpar gcontractwr i gynnwys:

- 2.1 ystyried realaeth amcanestyniadau ariannol a gweithlu;
- 2.2 risgiau a allai gael eu cyflwyno oherwydd natur a chymhlethdod buddiannau busnes darpar gcontractwyr.

Pan nodir pryderon, dylai'r Bwrdd Iechyd ddatrys y rhain cyn gosod y contract (**Paragraff 27 i 30**).

**A3** Dylai'r Bwrdd Iechyd gadw tystiolaeth o'r holl wiriadau diwydrwydd dyladwy a gynhaliwyd wrth osod unrhyw gcontract GMC. Dylai'r gwiriadau a gynhelir gynnwys gwiriadau cefndir ar gyfarwyddwyr. (**paragraff 31 a pharagraff 36**).

**A4** Cytuno ar berfformiad practis GMC clir ond cymesur a thargedau gweithredol ar gyfer uwchgyfeirio ac isgyfeirio ar ôl y cyfnod adolygu dyfarnu contract 12 mis cychwynnol (**paragraff 37**).

# Atodiadau

## 1 Ynglŷn â'n gwaith

### Cwmpas yr archwiliad

Roedd ein gwaith yn ystyried y camau a gymerodd y Bwrdd Iechyd i ddyfarnu contractau GMC i Bartneriaeth Meddygon Teulu penodol rhwng Hydref 2023 ac Ebrill 2024. Fe wnaethom hefyd edrych ar y trefniadau parhaus ar gyfer rheoli contractau meddygon teulu gan gynnwys y trefniadau monitro ac uwchgyfeirio.

Ni wnaethom adolygu'r broses penodi meddygon teulu ar gyfer unrhyw bractisau meddygon teulu eraill y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu rheoli. Mae gwiriadau rhestr perfformwyr meddygon teulu, a gynhaliwyd gan Bartneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru hefyd y tu allan i gwmpas yr adolygiad. Nid ydym ychwaith wedi adolygu cydymffurfiaeth y Bwrdd Iechyd â pholisïau newydd ar gyfer contract Aberbîg a ddyfarnwyd yn fwy diweddar.

### Cwestiynau a meini prawf archwilio

#### Cwestiynau

Roedd ein gwaith archwilio yn canolbwyntio ar y system; ei ddiben cyffredinol oedd ystyried:

- Rhesymoldeb trefniadau ar gyfer penodi'r Bartneriaeth gan ystyried llywodraethu, diwydrwydd dyladwy, cydymffurfio â pholisi a rheoliadau, gwneud penderfyniadau a rheoli risg;
- Goruchwyliaeth a rheolaeth y Bwrdd Iechyd o'r practisau meddygon teulu sy'n cael eu rhedeg gan y Bartneriaeth, a'r broses ar gyfer sicrhau trosglwyddo llyfn pan oedd y Bartneriaeth yn dychwelyd ei chontractau GMC i'r Bwrdd Iechyd.

## Meini Prawf

Cafodd ein cwestiynau archwilio eu llunio gan ofynion a nodir yng nghanllawiau Cylchlythyr Iechyd Cymru Llywodraeth Cymru, deddfwriaeth gaffael sy'n berthnasol ar adeg penodi contract, a pholisïau'r Bwrdd Iechyd ei hun. Fe wnaethom hefyd ystyried y gwaith Archwilio Mewnol diweddar i roi sicrwydd ar eu gwaith lle bo'n bosibl, ac i lywio ein cwestiynau.

## Dulliau

Fe wnaethom adolygu ystod o ddogfennau, gan gynnwys:

- Papurau a chofnodion bwrdd a phwyllgor;
- Dogfennau llywodraethu allweddol gan gynnwys y Polisi Practis Gwag;
- Adroddiadau Archwilio Mewnol;
- Achosion busnes a dogfennaeth dyfarnu contractau;
- Gwell gwybodaeth monitro gan gynnwys cofnodion o gyfarfodydd.

Fe wnaethom gyfweld â'r rhanddeiliaid allweddol canlynol:

- Prif Weithredwr;
- Cyfarwyddwr Rhanbarthol Gofal Sylfaenol, Gwasanaethau Cymunedol, a Gofal Cymhleth a Hirdymor;
- Pennaeth Gofal Sylfaenol;
- Gwrth-dwyll y GIG;
- Gwrth-dwyll Lleol;
- Archwiliad Mewnol;
- Partneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru;
- Perfformiad a Gwelliant y GIG;
- Uwch Swyddog Meddygol, Gofal Sylfaenol ac Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd Cynnar, Llywodraeth Cymru;
- Uwch Swyddog Meddygol yr Is-adran Gofal Sylfaenol, Iechyd Meddwl, Camdefnyddio Sylweddau a Grwpiau Agored i Niwed, Llywodraeth Cymru,

## 2 Amserlen Dyfarnu Contract

Practis	Proses contract	Practis wedi'i reoli ers	Dyddiad dechrau'r contract	Dyddiad dychwelyd y contract
Llyswry	Cytundeb wedi'i gymryd drosodd o bractis meddygon teulu sy'n gadael	Amherthnasol	1 Tach 22	31 Mawrth 2026
Pont-y-pŵl	Contract wedi'i ddyfarnu yn unol â'r Polisi Practis Gwag	Amherthnasol	1 Hyd 23	31 Mawrth 2026
Tredegar	Contract wedi'i ddyfarnu yn unol â'r Polisi Practis Gwag	Ebrill 2017	1 Ionawr 24	1 Ebrill 25
Bryn-mawr	Contract wedi'i ddyfarnu yn unol â'r Polisi Practis Gwag	Gorffennaf 2015	1 Ebrill 24	1 Mawrth 25
Aberbîg	Contract wedi'i ddyfarnu yn unol â'r Polisi Practis Gwag	Ebrill 2018	1 Ebrill 24	1 Mawrth 25
Bryntirion	Contract wedi'i ddyfarnu yn unol â'r Polisi Practis Gwag	Rhagfyr 2017	1 Ebrill 24	1 Ebrill 25

<b>Practis</b>	<b>Proses gontract</b>	<b>Practis wedi'i reoli ers</b>	<b>Dyddiad dechrau'r contract</b>	<b>Dyddiad dychwelyd y contract</b>
Blaenafon	Contract wedi'i ddyfarnu yn unol â'r Polisi Practis Gwag	Ionawr 2023	1 Ebrill 24	1 Mawrth 25
Meddygfa Gelligaer	Cytundeb wedi'i gymryd drosodd o bractis meddygon teulu sy'n gadael	Amherthnasol	11 Ebrill 24	31 Mawrth 2026

### 3 Gwerthoedd contract 2024-25

Arddangosyn 3: Gwerthoedd contract 2024-25 a ffigurau wedi'u haddasu ar gyfer yr wyth practis yn y Bartneriaeth Meddygon Teulu

Practis	Gwerth contract y cytunwyd arno	Gwerth contract diwygiedig
	£ miliwn	£ miliwn
Pont-y-pŵl	2.47	2.47
Bryntirion	1.59	1.59
Bryn-mawr	1.56	1.43
Meddygfa Gelligaer	1.09	1.09
Tredegar	1.05	1.05
Blaenafon	0.85	0.78
Llyswry	0.84	0.84
Aberbîg	0.67	0.61
<b>Cyfansymiau</b>	<b>10.1</b>	<b>9.85</b>

Ffynhonnell: Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Noder: Mae gwerth y contract diwygiedig yn adlewyrchu gostyngiad pan gafodd y practisau eu trosglwyddo yn ôl i'r Bwrdd Iechyd cyn diwedd y flwyddyn.

## 4 Monitro contractau

---

Mae'r Tîm Contractio Gofal Sylfaenol yn monitro cydymffurfiaeth yn erbyn gofynion contract craidd ar gyfer pob practis GMC. Mae'r rhain yn cynnwys:

- monitro safonau mynediad (chwarterol);
- diweddarau'r System Deallusrwydd Gweithlu Gofal Sylfaenol (misol);
- pecyn cymorth hunanasesu practis llywodraethu clinigol (blynyddol);
- pecyn cymorth hunanasesiad llywodraethu gwybodaeth Cymru (blynyddol);
- fframwaith sicrwydd contractau (blynyddol);
- adrodd ar uwchgyfeirio (misol);
- gweithgaredd data meddygon teulu (misol);
- mynychu cyfarfodydd cydweithredol (chwarterol);
- cymryd rhan mewn dau brosiect gwella ansawdd (blynyddol);
- adrodd ar iechyd plant (monitro misol, adrodd bob deufis).

Mae practisau yn lanlwytho llawer o'r wybodaeth hon i'r Porth Gwybodaeth Gofal Sylfaenol. Yna gall byrddau iechyd adolygu'r data hwn ar lefel clwstwr ond ni allant ddefnyddio'r data ar gyfer rheoli perfformiad unrhyw bractis unigol. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r Byrddau Iechyd i ddefnyddio'r wybodaeth hon at ddibenion uwchgyfeirio a monitro.

## 5 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn

---

Term	Disgrifiad
<b>Meddygon Teulu</b>	Meddyg sy'n darparu gwasanaethau gofal sylfaenol, gwneud diagnosis a thrin ystod eang o gyflyrau iechyd. Meddygon teulu fel arfer yw'r pwynt cyswllt cyntaf i gleifion ac maent yn cydlynu gofal parhaus, gan gynnwys atgyfeiriadau i arbenigwyr pan fo angen.
<b>Amrywiad Contract</b>	Pan fydd practis yn cael ei ddychwelyd i fwrdd iechyd, efallai oherwydd rhesymau megis ymddeoliad y contractwr presennol, mae'n gyfrifol am sicrhau darparwr newydd. Mae'n gwneud hyn trwy broses dyfarnu contract, lle mae'r practis yn cael ei hysbysebu a gall contractwyr annibynnol wneud cais i redeg y practis. Mewn rhai achosion, mae deiliad presennol y contract yn ymgymryd â'r broses hon ei hun, trwy amrywiad contract, lle mae'r contract yn cael ei drosglwyddo i gontractwr annibynnol newydd heb gyfranogiad y bwrdd iechyd.
<b>Contract GMC</b>	Cytundeb cyfreithiol rhwng practisau meddygon teulu a GIG Cymru sy'n nodi'r gwasanaethau meddygol craidd y mae'n rhaid i feddygon teulu eu darparu.
<b>Diwydrwydd Dyladwy</b>	Proses o ymchwilio ac asesu gofalus a gynhelir i wirio ffeithiau, gwerthuso risgiau, a sicrhau penderfyniadau gwybodus - a ddefnyddir yn gyffredin mewn cyd-destunau ariannol, cyfreithiol a gweithredol fel archwiliadau, uno, neu wiriadau cydymffurfio.

**Practis a Reolir**

Practis meddyg teulu a weithredir yn uniongyrchol gan Fwrdd Iechyd yng Nghymru, a sefydlwyd fel arfer pan fydd contract meddyg teulu safonol yn dod i ben ac nad oes darparwr arall ar gael. Mae Practisau a Reolir yn darparu gwasanaethau'r GIG gan ddefnyddio staff cyflogedig a locwm ac mae'r Bwrdd Iechyd yn eu goruchwyllo.

**Fframwaith Asesu  
Cynaliadwyedd**

Mae'r fframwaith asesu cynaliadwyedd yn fframwaith cenedlaethol sy'n darparu dull cyson ar gyfer asesu cynaliadwyedd practisau meddygon teulu a phenderfynu ar lefel y cymorth sydd ei angen ar gyfer y practisau hynny. Mae panel asesu lleol yn penderfynu ar gymhwysedd a lefel y cymorth a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd. Rhaid i feddygon teulu gefnogi pob hawliad gyda thystiolaeth o wariant.

## 6 Ymateb y rheolwyr

Cyf	Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau gweithredoed d wedi'u cynllunio	Swyddog cyfrifol (teitl)
A1	<p>Cryfhau gofynion achos busnes meddygon teulu yn y polisi practis gwag i sicrhau bod darpar bartneriaid meddygon teulu yn cynnwys digon o fanylion am ei gynlluniau gweithlu, ariannol ac ansawdd.</p>	<p>Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod achosion busnes a gyflwynir gan ddarpar bartneriaid meddygon teulu ar gyfer practisau gwag yn ddigon manwl, cadarn ac yn gallu gwrthsefyll craffu allanol.</p> <p>Mae'r Bwrdd lechyd wedi gweithredu Polisi Practis Gwag sefydledig a chadarn, sydd wedi'i gymhwyso'n gyson trwy gydol prosesau practis gwag. Mae'r polisi hwn yn ei gwneud yn ofynnol i ddarpar bartneriaid meddygon teulu gyflwyno achosion busnes cynhwysfawr, gyda chefnogaeth cyfweiliad strwythuredig a phroses diwydrwydd dyladwy. Mae'r cyflwyniadau hyn yn cael eu hasesu gan Banel Practis Gwag sy'n cynnwys cynrychiolaeth allanol gan Llais a'r Pwyllgor Meddygol Lleol, gan ddarparu her a sicrwydd annibynnol mewn perthynas â chynaliadwyedd y gweithlu, hyfywedd ariannol ac ansawdd trefniadau gofal.</p> <p>Mewn ymateb i ddysgu o brosesau ymarfer gwag diweddar a chanfyddiadau archwilio mewnol, mae'r Bwrdd lechyd eisoes wedi cryfhau'r Polisi Practis Gwag presennol a gofynion achosion busnes cysylltiedig. Mae'r gwelliannau hyn wedi canolbwyntio ar wella eglurder a chysondeb gwybodaeth sy'n ofynnol gan ymgeiswyr, yn enwedig mewn perthynas â chynlluniau'r gweithlu, modelu ariannol a threfniadau llywodraethu ansawdd. Mae'r Bwrdd lechyd yn croesawu'r argymhelliad pellach hwn gan Archwilio Cymru a bydd yn ei fwrw ymlaen fel rhan o raglen barhaus o wella. Bydd mireinio pellach i ofynion</p>	30 Ebrill 2026	Pennaeth Gofal Sylfaenol

Cyf	Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau gweithredoed d wedi'u cynllunio	Swyddog cyfrifol (teitl)
		<p>achosion busnes a phrosesau asesu yn cael eu hymgorffori yn y Weithdrefn Weithredu Safonol: Rheoli Swyddi Gwag Practis Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (2025), sy'n nodi'r camau gweithdrefnol ar gyfer gosod practisau gwag a reolir gan y Bwrdd Iechyd. Mae'r SOP yn sicrhau bod gofynion yn cael eu cymhwyso'n gyson, yn dryloyw ac yn unol â disgwyliadau rheoleiddio a llywodraethu perthnasol.</p>		
A2	<p>Cryfhau craffu ar gynlluniau busnes ariannol darpar contractwyr i gynnwys: ystyried realaeth amcanestyniadau ariannol a gweithlu; ac</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• risgiau a allai gael eu cyflwyno gan natur a chymhlethdod buddiannau busnes darpar contractwyr.</li> <li>• Pan nodir pryderon, dylai'r</li> </ul>	<p>Mae'r Bwrdd Iechyd yn derbyn yr argymhelliad hwn ac yn cydnabod pwysigrwydd craffu cadarn a chymesur ar gynlluniau busnes ariannol a gweithlu darpar contractwyr i gefnogi cynaliadwyedd, diogelwch ac ansawdd hirdymor Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS).</p> <p>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu Polisi Practis Gwag sefydledig a chadarn, sydd wedi'i gymhwyso'n gyson trwy gydol prosesau ymarfer gwag ac sy'n cynnwys asesiad strwythuredig o hyfywedd ariannol, cynigion gweithlu a threfniadau llywodraethu. Cefnogir y broses hon gan graffu amlddisgyblaethol a her annibynnol trwy aelodaeth y Panel Practis Gwag.</p> <p>Mewn ymateb i ddysgu o brosesau ymarfer gwag diweddar a chanfyddiadau archwilio mewnol, mae'r Bwrdd Iechyd eisoes wedi cryfhau'r Polisi Practis Gwag presennol a'r offer asesu cysylltiedig. Yn benodol:</p> <p>Mae'r templed rhagolwg ariannol y mae'n ofynnol i ddarpar contractwyr ei gwblhau wedi'i ymestyn i ofyn am amcanestyniad o leiaf tair blynedd, gan alluogi asesiad gwell o realaeth rhagdybiaethau gweithlu a disgwyliadau incwm a gwariant yn y dyfodol; a Mae rhestr wirio diwydrwydd dyladwy ffurfiol wedi'i chyflwyno, sy'n cynnwys gofyniad i unigolion o fewn darpar bartneriaeth ymrwymo i gael gwiriad credyd cyn dyfarnu contract,</p>	30 Ebrill 2026	Pennaeth Gofal Sylfaenol

Cyf	Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau gweithredoed d wedi'u cynllunio	Swyddog cyfrifol (teitl)
	Bwrdd lechyd ddatrys y rhain cyn gosod y contract	<p>Ile bo hynny'n briodol. Bydd y trefniadau diwydrwydd dyladwy yn cael eu datblygu ymhellach i ymgorffori adolygiad ffurfiol o gofnodion Tŷ'r Cwmnïau, i hysbysu a oes angen unrhyw archwiliad ychwanegol o fuddiannau busnes ehangach lle mae natur neu gymhlethdod y buddiannau hynny yn cyflwyno risg bosibl.</p> <p>Mae'r Bwrdd lechyd yn nodi nad oes unrhyw gymal na chyfyngiad o fewn Rheoliadau'r Gwasanaeth Lechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Contractau) (Cymru) 2023 sy'n gosod cyfyngiadau ar fuddiannau busnes ehangach contractwyr annibynnol. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd lechyd o'r farn ei bod yn briodol deall ac asesu buddiannau o'r fath lle gallant gyflwyno risg sylweddol i gynaliadwyedd ariannol, darparu gwasanaethau neu gydymffurfio â chytundebol.</p> <p>Pan fydd pryderon yn cael eu nodi trwy graffu ariannol, gweithlu neu ddiwydrwydd dyladwy gwell, bydd y rhain yn cael eu harchwilio a'u datrys yn llawn cyn gosod unrhyw gontract, gyda phenderfyniadau wedi'u llywio gan dystiolaeth wedi'i dogfennu a goruchwyliaeth lywodraethu briodol.</p> <p>Mae'r trefniadau cryfach hyn wedi'u hymgorffori yn y Weithdrefn Weithredu Safonol: Rheoli Swyddi Gwag Practis Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (2025), a byddant yn parhau i gael eu hadlewyrchu, gan sicrhau bod prosesau craffu yn dryloyw, yn gyson, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn gallu gwrthsefyll craffu archwilio mewnol ac allanol.</p>		
A3	Dylai'r Bwrdd lechyd gadw tystiolaeth o'r holl wiriadau diwydrwydd dyladwy a gynhaliwyd	Mae'r Bwrdd lechyd yn derbyn yr argymhelliad hwn ac yn cydnabod pwysigrwydd cadw tystiolaeth glir ac archwiliadwy o'r holl wiriadau diwydrwydd dyladwy a gynhaliwyd wrth adael unrhyw gontract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS), gan gynnwys gwiriadau cefndir ar gyfarwyddwyr.	Cyflawn	Pennaeth Gofal Sylfaenol

Cyf	Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau gweithredoed d wedi'u cynllunio	Swyddog cyfrifol (teitl)
	<p>wrth adael unrhyw gontract GMS. Dylai'r gwiriadau a gynhelir gynnwys gwiriadau cefndir ar gyfarwyddwyr.</p>	<p>Mae trefniadau diwydrwydd dyladwy y Bwrdd Iechyd eisoes yn cynnwys ystod o wiriadau sydd wedi'u cynllunio i ddarparu sicrwydd ynghylch addasrwydd, tebygolrwydd a gallu darpar ddarparwyr. Mae hyn wedi cynnwys gwiriadau a gynhaliwyd trwy systemau hygyrch i'r cyhoedd, fel Tŷ'r Cwmnïau, nad ydynt bob amser yn cynhyrchu allbynnau dogfennol ffurfiol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod yr angen i sicrhau bod tystiolaeth o wiriadau o'r fath, yn enwedig y rhai a gwblhawyd trwy ffynonellau mynediad ar-lein neu gyhoeddus, yn cael eu cofnodi a'u cadw'n gyson i gefnogi sicrwydd a thryloywder archwilio.</p> <p>Mewn ymateb, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei drefniadau trwy ymgorffori'n benodol yn y Weithdrefn Weithredu Safonol: Rheoli Swyddi Gwag Ymarfer Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (2025) gofyniad bod yr holl ddogfennaeth a chofnodion a gasglwyd fel rhan o'r broses diwydrwydd dyladwy yn cael eu cadw'n ffurfiol. Mae hyn yn cynnwys tystiolaeth o wiriadau cefndir a gonestrwydd ar gyfarwyddwyr ac unigolion perthnasol, waeth a yw ffynhonnell y gwiriad yn ddogfennol neu'n hygyrch i'r cyhoedd.</p> <p>Mae'r SOP bellach yn gwneud yn glir bod yn rhaid cadw'r holl gofnodion diwydrwydd dyladwy yn unol â Chod Ymarfer Rheoli Cofnodion y Bwrdd Iechyd, gan sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei storio, ei hadfer a'i chadw'n ddiogel am y cyfnod priodol. Mae'r dull hwn yn darparu llwybr archwilio clir ac yn cryfhau fframwaith sicrwydd y Bwrdd Iechyd mewn perthynas â gosod a rheoli contractau GMS.</p>		

Cyf	Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau gweithredoed d wedi'u cynllunio	Swyddog cyfrifol (teitl)
A4	Cytuno ar berfformiad ymarfer GMS clir ond cymesur a thargedau gweithredol ar gyfer cynyddu a dad-ddwysáu ar ôl y cyfnod adolygu dyfarnu contract 12 mis cychwynnol.	<p>Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod pwysigrwydd cytuno ar dargedau perfformiad a gweithredol clir, cymesur a thryloyw i gefnogi penderfyniadau uwchgyfeirio a dad-ddwysáu ar ôl y cyfnod adolygu dyfarnu contract 12 mis cychwynnol.</p> <p>Mae'r Bwrdd lechyd yn nodi bod y contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS) wedi'i bennu'n genedlaethol, gyda gofynion perfformiad, ansawdd a gweithredol craidd wedi'u gosod ar lefel genedlaethol. Felly, rhaid i unrhyw fesurau a gymhwysir yn lleol alinio â gofynion cytundebol cenedlaethol, osgoi dyblygu diangen, a pharhau i fod yn gymesur â'r risgiau a nodwyd.</p> <p>O fewn y paramedrau hyn, bydd y Bwrdd lechyd yn datblygu ac yn cymhwyso dangosyddion a ddiffinnir yn lleol i lywio penderfyniadau uwchgyfeirio a dad-ddwysáu ar ôl dyfarnu contract. Bydd y dangosyddion hyn yn cael eu cynllunio i ategu gofynion cenedlaethol a chanolbwyntio ar feysydd fel cynaliadwyedd, gwytnwch gweithredol a darparu gofal diogel o ansawdd uchel, tra'n sicrhau cysondeb a thegwch ar draws arferion.</p> <p>Mae Fframwaith Monitro Gwell presennol y Bwrdd lechyd eisoes yn dangos ymrwymiad cryf i oruchwyliaeth gymesur ac ymyrraeth gynnar lle nodir pryderon. Gan adeiladu ar y fframwaith hwn, bydd mireinio pellach yn cael ei wneud i sicrhau bod trothwyon uwchgyfeirio a dad-ddwysáu yn glir, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn cael eu cymhwyso'n gyson, gan gefnogi gwneud penderfyniadau tryloyw a goruchwyliaeth llywodraethu briodol.</p> <p>Bydd y diwygiadau hyn yn cael eu hymgorffori'n ffurfiol yn y Weithdrefn Weithredu Safonol: Rheoli Swyddi Gwag Practis Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (2025), gan sicrhau bod disgwyliadau, prosesau a meini prawf gwneud penderfyniadau yn cael eu mynegi'n glir ac wedi'u hymgorffori mewn trefniadau gweithredol sefydledig.</p>	31 Gorffennaf 2026	Pennaeth Gofal Sylfaenol

Cyf	Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau gweithredoed d wedi'u cynllunio	Swyddog cyfrifol (teitl)

# Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd ar gyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrrff llywodraeth leol eraill. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar y defnydd o adnoddau gan y sefydliadau hyn ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill Swyddfa Archwilio Cymru, sef corff a sefydlwyd i gefnogi, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân gyda'r rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)

Rydym yn croesawu gohebiaeth  
a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.  
We welcome correspondence and  
telephone calls in Welsh and English